

Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe

Cylchlythyr

Rhifyn 04 (Medi 2017)



Yn y Rhifyn Hwn

- Interreg Gogledd-orllewin Ewrop
- Gweithdy Technoleg Arloesol
- MYND am DWF
- Buddsoddiad Ewropeaidd i Bort Talbot
- Astudiaeth Achos
- Arweinyddiaeth ION yn Ymweld â Charreg Filltir
- Gronfa Cynhwysiant Gweithredol
- UK Atlantic Strategy Workshop

Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu?

Mae'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yma i gefnogi prosiectau yn y rhanbarth a gweithio gydag arweinwyr prosiect i rannu arferion da rhwng prosiectau.

Beth am roi gwybod inni am rai o'ch straeon newyddion da – anfonwch e-bost atom a gallwn ni gynnwys eich prosiect yn y llythyr newyddion nesaf.

Rydym yn awyddus i drefnu gweithdai yn y rhanbarth i rannu gwybodaeth newydd. Os oes gennych unrhyw feysydd diddordeb penodol yr hoffech inni drefnu gweithdy yn eu cylch anfonwch e-bost atom – smnicholls@sirgar.gov.uk

Mae'n bleser gan y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol gyflwyno aelod newydd o'r tîm, sef Beth Walters a fydd yn gweithio fel Cydgysylltydd y Tîm ar gyfer Rhanbarth Bae Abertawe. Cadwch olwg am yr eitem 'Cwrdd â'r Tîm' yn y rhifyn nesaf.

Interreg Gogledd-orllewin Ewrop - Galw am Gynigion

Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd yw Interreg Gogledd-orllewin Ewrop sydd â'r uchelgais o wneud ardal Gogledd-orllewin Ewrop yn chwaraewr economaidd allweddol ac yn lle deniadol i weithio ac i fyw ynddo, sydd â lefelau uchel o arloesi, cynaliadwyedd a chydlyniaid.

Mae'r rhaglen yn chwilio am fentrau cydweithredu trawswladol a bydd yr alwad nesaf am gynigion prosiect ar agor o ddydd Llun 16 Hydref 2017 a bydd yn cau ar ddydd Gwener 17 Tachwedd 2017.

Er mwyn gwybod popeth sydd angen i chi ei wybod, o gefndir y rhaglen i'r cynghorion gorau ynglŷn â sut i wneud cais, lawrlwythwch [Lawlyfr y Rhaglen](#).

Gweithdy Technoleg Arloesol



Ar fore'r 4^{ydd} o Hydref bydd CEMET yn bresennol yng Nghanolfan Arloesedd y Bont ar gyfer Gweithdy Technoleg Newydd. Bydd y tîm Ymchwil a Datblygu yn rhannu eu gwybodaeth â chi a bydd cyfle hefyd i ddysgu mwy am y prosiect CEMET. Mae CEMET yn cefnogi busnesau o Gymru sy'n ceisio creu cynhyrchion, datrysiadau a gwasanaethau newydd, a hynny trwy gyfrwng prosiectau ymchwil pwrpasol a gynhelir ar y cyd ac a gaiff eu cyllido.

Caiff y rhaglen ei chyllido'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru.

I gadw eich lle heddiw, cliciwch [yma](#)

Digwyddiad Cynhyrchwyr Bwyd MYND am DWF

Yn dilyn y digwyddiad llwyddiannus blaenorol yng Ngorllewin Cymru, mae Canolfan Bwyd Cymru yn trefnu digwyddiad ar y cyd â Cywain, PLANED a thimau LEADER lleol Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Bydd "Mynd am Dwf" yn canolbwyntio ar ddatblygu eich busnes bwyd

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno data ymchwil diweddaraf y diwydiant, a bydd prynwyr o Morrisons yn siarad am sut i gyrraedd eu silffoedd nhw. Bydd cynhyrchwyr lleol llwyddiannus a phersonél Llywodraeth Cymru yn rhannu eu dealltwriaeth, a allai fod o fudd i'ch busnes chi.

Bydd yna gyfle hefyd i drefnu slotiau trafod 1 i 1 preifat gydag arbenigwyr o'r diwydiant, ac i gael taith o amgylch yr ardaloedd datblygu a phrosesu technoleg bwyd.

Dyddiad: Dydd Mawrth 10 Hydref
Amser: 09:30
Lleoliad: Canolfan Bwyd Cymru, Horeb, Llandysul

Rhagor o wybodaeth, cliciwch [yma](#)

Buddsoddiad Ewropeaidd i Bort Talbot

Bydd £3.5m o arian yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei fuddsoddi yng ngham cyntaf datblygiad o bwys i greu canolbwynt busnes newydd yn hen ddociau Port Talbot.

Bydd yr arian yn helpu i ddatblygu tri hectar o dir llwyd, adeiladu ffordd fynediad newydd ac uwchraddio ffordd sy'n bodoli'n barod, a hynny er mwyn datblygu safle cyflogaeth strategol yn yr ardal.

Bydd y prosiect, a fydd para am ddwy flynedd, yn paratoi'r safle ar gyfer buddsoddiad gan fusnesau, gan ddatblygu mwy na 200,000 troedfedd sgwâr o ofod ar gyfer diwydiant a swyddfeydd. Gallai hyn roi lle i tua 1,600 o swyddi.

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch [yma](#)

Astudiaeth Achos



Roedd David Cooper, 46 oed o Bort Talbot, wedi bod yn gweithio'n flaenorol fel gwas sifil ond bu rhaid iddo orffen er mwyn gofalu am ei rieni a oedd yn mynd yn hŷn. Bu David yn gofalu am ei rieni am 15 mlynedd a phan ddaeth hi'n amser iddo ddychwelyd i'r gwaith nid oedd David yn siŵr iawn ble oedd dechrau. Roedd wedi colli llawer o hyder dros y blynyddoedd ac roedd technoleg wedi symud ymlaen yn ystod y cyfnod hwn. Mae David yn dioddef o Spina Bifida Occulta ac arthritis yr asgwrn cefn a'r coesau, sydd yn cyfyngu ar y swyddi y mae'n gallu eu gwneud.

Cysylltodd David â Gweithffyrdd+ ym mis Awst 2016 ar ôl gweld eitem newyddion ar y rhyngwrwyd a oedd yn hyrwyddo'r prosiect. Neilltuwyd mentor ar gyfer David, a wrandawodd arno ac a gymerodd yr amser i ddeall y ffactorau a oedd yn ei atal rhag dod o hyd i waith. Rhoddodd mentor David ef ar gyrsiau a fu o gymorth iddo ailadeiladu rhai o'r sgiliau a'r hyder y teimlai ei fod wedi'u colli dros y blynyddoedd. Cwrs achrededig mewn gweinyddu oedd un o'r cyrsiau hyn, a oedd yn rhywbeth cyfoes y gallai David ei roi ar ei CV. Helpodd ei fentor ef hefyd i ddod o hyd i leoliad profiad gwaith, a rhoddodd hyn gyfle i David ymarfer rhai o'r sgiliau yr oedd wedi'u dysgu ar y cwrs gweinyddu a rhoi blas iddo ar fod nôl yn y gwaith.

Ar ddiwedd y lleoliad gwaith roedd David yn awyddus i ddatblygu ei sgiliau a pharhau â'r drefn yr oedd wedi'i sefydlu. Trafododd David a'i fentor y cyfleoedd gwirfoddoli a'r opsiynau a oedd ar gael iddo er mwyn ei helpu i wella a diweddarau ei sgiliau. Ar ôl ystyried ychydig o opsiynau dechreuodd David wirfoddoli yn The Bulldogs, sef elusen sy'n cyflwyno gweithgareddau yn y gymuned gan ganolbwyntio ar focsio fel camp. Bellach mae David wedi bod yn gwirfoddoli ers pedair wythnos ac mae'n mwynhau'r profiad.

Meddai David, "Mae'n helpu fy hyder ac yn rhoi cyfle i mi gwrdd â phobl. Credaf y bydd gwneud hyn yn rhoi'r hyder i mi ymgeisio am swyddi yn y dyfodol. Mae'r staff yma yn The Bulldogs wir wedi fy nghrosawu i'r tîm. Rwyf yn mwynhau bod nôl mewn amgylchedd swyddfa ac yn mwynhau'r gwaith a dysgu sgiliau TG newydd."

Mae David yn parhau i weithio gyda'i fentor yn Gweithffyrdd+ gyda'r nod yn y tymor hwy o symud ymlaen i waith cyflogedig.

Caiff Gweithffyrdd+ ei ariannu gan werth £7.5m o gyllid yr Undeb Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar y cyd â Chynghorau Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.

I ddathlu 60 mlynedd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), mae WEFO yn lansio cystadleuaeth i gydnabod llwyddiant unigolion y mae Cyllid yr UE yng Nghymru wedi trawsnewid eu bywydau.

Maen't am glywed hanesion llwyddiant unigolion sydd wedi manteisio ar gyfleoedd a gyflwynwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, gan fentro ymhellach i ddatblygu sgiliau newydd, cael swydd neu ddilyn llwybr gyrfa newydd.

I gymryd rhan, dylai'r noddwyr lenwi ffurflen gais <http://gov.wales/docs/wefo/publications/170905-esf-form-cy.pdf> yn enwebu unigolyn o'u prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop, yn amlinellu llwyddiannau'r unigolyn a'r gwahaniaeth y mae'r gronfa wedi'i wneud i'w fywyd.

Mae yno hefyd gategori i holl brosiectau'r UE (ESF ac ERDF) ymgeisio iddo. Hoffai WEFO glywed gan brosiectau sydd wedi llwyddo i ymgorffori'r agendâu cynaliadwyedd, cydraddoldeb a/neu drechu tldi (y [themâu trawsbyncio](#)) yn eu gweithgareddau. Dyma gyfle i bob noddwr ddangos eu llwyddiannau yn yr agwedd bwysig hon o gyflawni prosiectau.

Cystadleuaeth #CronfeyddUECymru 2017

Dathlu 60 mlynedd o Gronfa Gymdeithasol Ewrop

Beth am gystadlu gyda'ch prosiect chi
sydd wedi derbyn arian UE!

www.llyw.cymru/cystcronfeyddue

Dyddiad cau: Gwener 20 Hydref

#ESF60



Buddsoddi mewn pobl
Cronfa Gymdeithasol Ewrop



Bydd yr Ysgrifennydd Cyllid, Mark Drakeford, yn cyhoeddi'r enillwyr yn y Digwyddiad Gwybodaeth ar gyfer Cronfeydd yr UE ar 30 Tachwedd.

Rhagor o wybodaeth: <http://gov.wales/funding/eu-funds/eu-funds-comp/?skip=1&lang=cy>

Arweinyddiaeth ION yn Ymweld â Charreg Filltir Sylweddol

Mae mwy na 1,000 o berchnogion busnes, cyfarwyddwyr a rheolwyr eisoes wedi elwa o'r rhaglen arweinyddiaeth ION a'i rhagflaenydd Lead Cymru, sydd wedi cynhyrchu cynnydd cyfartalog o 26% yn eu trosiant busnes ac ychwanegu dros £52m at economi Cymru.

Wedi'i sefydlu saith mlynedd yn ôl, ac yn cael ei arwain gan Brifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, caiff ffurf bresennol y prosiect Lead Cymru - arweinyddiaeth ION - ei chefnogi â gwerth £2.7m gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i godi sgiliau a gyrru twf busnesau mewn cwmnïau ar hyd a lled Cymru.

Gallwch ddod i wybod mwy am raglen Arweinyddiaeth ION [yma](#)

£4.9 miliwn o gyllid Ewrop i fudiadau Cymraeg

Mae 50 o sefydliadau hapus ledled Cymru wedi elwa o rownd ddiweddaraf y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol. Caiff y gronfa ei chefnogi gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a'i rhedeg gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar ran Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Bydd y sefydliadau yn derbyn cyfran o'r £4.9 miliwn i wella cyflogadwyedd pobl dan anfantais sydd bellaf o'r farchnad lafur. Bydd y cyllid yn cefnogi nifer o brosiectau uwchsgilio amgen gan gynnwys gweithgareddau coetir a dysgu trwy gyfrwng cerddoriaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol cliciwch [yma](#)

Gweithdy Strategaeth y DU ar yr Iwerydd

“Ynni Morol: Yn Ilywio Economi yr Iwerydd”

Ymunwch â Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, mewn gweithdy a gynlluniwyd i helpu sefydliadau'r Deyrnas Unedig yn y sector pysgodfeydd, twristiaeth ac ynni adnewyddadwy morol i ddarganfod mwy am gyllid a chyfleoedd i gydweithio yn ardal yr Iwerydd. Bydd y digwyddiad yn arddangos datblygiadau blaenllaw ac yn tynnu sylw at botensial y sector ynni morol yn y gwaith o fywiocáu economïau arfordirol ar lannau'r Iwerydd trwy greu swyddi medrus a thwf. Bydd yn darparu fforwm ar gyfer cyfnewid profiadau, syniadau ac arferion gorau, ac i hyrwyddo cydweithrediad trawsffiniol a thrawswladol.

I gadw eich lle cliciwch [yma](#)

Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,
Business Resource Centre,
Parc Amanwy,
Ammanford.
SA18 3EP

01554 742473 / swanseabayret@sirgar.gov.uk

